Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar nos Fercher y 9fed o Chwefror 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.05yh.

Presennol : Y Maer y Cyng. Christopher Parish, y Dirprwy Faeres y Cyng. Julia Jones (Cadeirydd), y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Edward Thomas.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Charlotte Leadbeater.

Cof 264 / Chwef / 11 Cyfrifon i'w talu

CGGC (Cyflogres Ionawr 2011)	£ 24.30
Pink (blodau profedigaeth)	£ 25.00

Argymhellwyd fod pob un o'r uchod yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 265/ Chwef / 11 Incwm a Dderbyniwyd yn Ionawr 2011

Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed	£ 3,140.75

Cof 266 / Chwef / 11 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 31.01.11)	£ 25,565.03
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 31.12.10)	£ 27,178.73
Cyfrif Maer CTLl (fel ar 18.01.11)	£ 1,149.53

Cof 267/ Chwef / 11 Materion Ariannol Eraill

1. Adroddiad ar y Gwiriad Chwarterol.
   Adroddodd y Cadeirydd, y Cyng. Julia Jones, ei bod wedi gwirio 5 anfoneb a darganfu fod pob un ohonynt wedi cael eu cofnodi a'u harwyddo'n briodol.
2. Rhagolwg Cyllideb 3 blynedd.
   Gofynnodd y Pwyllgor i'r Swyddog Cyllid i edrych ar grwpio amrywiol eitemau o wariant fel bod grantiau, rhoddion ynghyd â rhoddion y Maer ar gael er gwybodaeth i'r cyhoedd.
   Hefyd, bod y £1,000 a gyllidwyd ar gyfer adnewyddu'r dodrefn ar y stryd, yn cael ei symud i gyflenwi'r gost o baratoi taflenni Llwybr Tref Treftadaeth newydd.

3. Digwyddiadau a phrosiectau yn y dyfodol.
   i) Canmlwyddiant Pont y Brenin. Rhoddodd y Cyng. Roy Davies adroddiad ar y trafodaethau a gafwyd gyda Mr Eirian James, Rheolwr Hawliau Tramwy CSG, ynglŷn â grantiau i adnewyddu'r bont. Byddai is-grŵp, yn cynnwys y Cyng. Julia

Jones, y Cyng. Edward Thomas a'r Cyng. Roy Davies, yn cwrdd i ystyried ffyrdd priodol o gynnwys y Dref yn y dathliadau.

ii) Revels in the Park
Byddai cyfarfod cyntaf yr is-grŵp yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 15fed o Chwefror am 6.30yh.

4. Llofnodwyr.
Dywedodd y Swyddog Cyllid fod y trefniadau bancio newydd yn ei gwneud hi'n fwyfwy anodd iddo i gael mynediad at fanylion banc.
Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod enw'r Swyddog Cyllid yn cael ei ychwanegu at y llofnodwyr ar gyfrifon y Cyngor ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid. Byddai enw'r Cyng. Ieuan Gwyn yn cael ei dynnu oddi ar y prif gyfrif cyn gynted ag y newidir y gorchymyn.

Cof 268 / Chwef /11 Gohebiaeth yn ymwneud â chyllid

1. Y Cyng. Edward Thomas, Cadeirydd y Llywodraethwyr , Ysgol GG Llandeilo. Cais am rodd i gynorthwyo gyda'r gronfa i brynu gatiau newydd i'r ysgol. Arwyddodd y Cyng. Thomas y llyfr datganiadau o fuddiant a gadawodd yr ystafell. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod rhodd o £300 yn cael ei roi. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Cafodd y cynnig ei gario gan 2 bleidlais o blaid, 1 bleidlais yn erbyn, ac fe wnaeth 2 ymwrthod.
2. Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru. Cais am rodd i gynorthwyo gyda gwaith y Gymdeithas. Cynigodd y Cyng. Christopher Parish rodd o £100, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid. (adran 26-29)
3. Y Parch. Michael Sadler. Cais am grant i wneud gwaith cynnal a chadw blynyddol yn y fynwent.
Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins rodd o £1000 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish.
4. Clwb Garddio Llandeilo. Cais am rodd i'w ddefnyddio fel gwobr ar gyfer y Sioe Arddio Flynyddol. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins rodd o £50 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.
5. Cymdeithas Trefeillio Llandeilo. Cais am y rhodd ddwyflynyddol a gytunwyd, i gynorthwyo gydag adloniant ar gyfer ymwelwyr o Le Conquet. Cynigodd y Cyng. Roy Davies rodd o £1,000 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 269 / Chwef /11 Goblygiadau Ariannol Adroddiad y Swyddog Technegol
Roedd y Swyddog Technegol wedi archwilio'r ffitiadau golau presennol yn y brif ystafell a ddefnyddir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn Neuadd y Sir. Ar wahân i'r 4 ffitiad diffygiol, roedd ansawdd y golau sy'n cael ei allyrru gan y 12 ffitiad arall yn is-safonol yn ôl Mr Davies. Byddai Mr Davies yn cwrdd gyda Chyfarwyddwr yr Ymddiriedolaeth i weld a ellir dod i gyd-drefniant ariannol rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth, ac yna bydd yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

Cof 270 / Chwef /11 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15yh.